# Lizzie Huxley-Jones

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Rhuddlan.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd Rhuddlan ac Ysgol Uwchradd Abergele.

**Beth oeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n un o'r plant oedd yn gyfrifol am lyfrgell fach yr ysgol, ac weithiau ro'n i'n cael mynd yno i dacluso'r llyfrau.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Am flynyddoedd ro'n i am fod yn filfeddyg, ond yn fy arddegau sylweddolais nad o'n i'n debygol o gael lle ar gwrs milfeddygaeth, felly es i i astudio Swoleg. Wyddwn i ddim y gallai rhywun gael gyrfa fel awdur.


**Beth yw eich diddordebau?**
Dwi wrth fy modd â gemau fideo, a dwi'n hoffi chwarae gemau bwrdd gyda fy ffrindiau. Yn bennaf, dwi'n mwynhau coginio ac ymweld â bwytai newydd. Ac wrth gwrs, dwi'n mwynhau darllen unrhyw beth – manga, nofelau graffig, barddoniaeth, llyfrau ffeithiol. Dwi'n arbennig o hoff o wrando ar lyfrau llafar wrth goginio bisgedi.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech chi'n blentyn?**
Roedd gen i sawl un, ond y rhai sydd wedi aros yn y cof yw Northern Lights gan Philip Pullman, Noughts and Crosses gan Malorie Blackman, a Sabriel gan Garth Nix.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn awdur?**
Yng nghanol fy ugeiniau. Ro'n i'n ysgrifennu drwy'r amser pan o'n i'n blentyn, ond tyfais i fyny yn y 90au a doedd y rhyngrwyd ddim yn gweithio'n dda o gwbl gartref, felly wyddwn i ddim sut i ddod yn awdur. Do'n i ddim yn adnabod unrhyw awduron chwaith, nac wedi cyfarfod yr un awdur. Pan sylweddolais i nad oedd gweithio mewn swyddfa yn addas i fi oherwydd fy anableddau, gadewais fy swydd a dechrau gwerthu llyfrau. Dyna pryd ddechreuais i feddwl am ddod yn awdur. Roedd hynny tuag wyth mlynedd yn ôl.



© Jamie Drew



**Oes yna themâu arbennig sy'n apelio atoch?**
Mae'r teulu fel thema bob amser yn sleifio i mewn i fy llyfrau. Ro'n i'n blentyn unig iawn oherwydd do'n i ddim yn sylweddoli fy mod i'n awtistig, a chefais fy mwlio gan wahanol bobl. Erbyn hyn mae gen i griw gwych o ffrindiau, ac yn fy llyfrau dwi'n ceisio rhoi'r neges 'Byddwch chi yn dod o hyd i'ch pobl, dwi'n addo'.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sydd am fod yn awdur?**
Darllenwch, darllenwch, darllenwch – llyfrau o bob math, nid dim ond llyfrau yn y genre rydych chi am ysgrifennu ynddo. Trwy ddarllen nofelau arswyd, dechreuais feddwl am bethau fel y plot a'r hyn sy'n creu tensiwn, tra bod barddoniaeth yn fy helpu i feddwl am ffyrdd prydferth o ddweud pethau mewn ychydig o eiriau. Mae'n rhaid i chi ysgrifennu heb olygu'ch gwaith i ddechrau, wedyn ei ddarllen, ac wedyn ei olygu wrth greu'r ail ddrafft.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau yw cyfarfod darllenwyr ifanc a siarad am straeon rydyn ni'n eu hoffi. Mae ysgrifennu llyfr fel rhedeg marathon – mae'n cymryd llawer o amser ac ymdrech.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Sabriel.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Lyra Belacqua.

**Hoff le i ysgrifennu?**
Y Llyfrgell Brydeinig.

**Hoff fwyd?**
Cacen/Teisen.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*The Owl House*.

**Hoff air?**
Sglodion.

***Superpower* o ddewis?**
Y gallu i wella pobl.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Nerys fy nghi.

**Swydd tasech chi dim yn awdur?**
Swydd ddelfrydol? Astudio Cymraeg.

**Top tip i awduron y dyfodol**
Daliwch ati.